Ein cyf/Our ref: P&T/T1/CYM/01
Eich cyf/Your ref:01

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Maes y Ffynnon
Penrhosgarnedd,
Bangor,
Gwynedd
LL57 2DW
E-bost/Email:
Risgllifogydd.Porthmadog@cyfoethnaturiol.cymru
Ffôn/Phone: 03000 655264

Allan fel e-bost

10 Mawrth 2021

Annwyl Bawb,

**Ynghylch: Rheoli'r perygl o lifogydd ym Mhorthmadog, Tremadog a dalgylch afon Glaslyn**

Mae cyfnodau o lawiad trwm y gaeaf hwn yn dangos i ni, unwaith eto, fod y ffordd y mae'r perygl o lifogydd yn cael ei reoli'n bryder cyson i lawer o gymunedau yng Nghymru, gan gynnwys Porthmadog, Tremadog a dalgylch afon Glaslyn.

Gan adeiladu ar flynyddoedd lawer o waith yn yr ardal, rydym yn dwysáu'n hymdrechion i ddod o hyd i ffyrdd cynaliadwy o reoli'r perygl o lifogydd yn y tymor hir.

Mae cyd-weithio'n agos gyda phawb yn y gymuned leol yn allweddol i wneud hyn. Bydd eich cyfraniad yn hollbwysig er mwyn i'r cynlluniau ystyried yn llawn eich gwybodaeth am yr ardal leol, eich pryderon, syniadau a dyheadau. Mae creu partneriaeth wrth wraidd y dull o weithio yr ydym am ei ddilyn.

I ddechrau, hoffem glywed gennych chi am eich profiadau o lifogydd dros y blynyddoedd.

Yn ystod yr adeg heriol hon gyda phandemig y Coronafeirws, pan nad oes modd i ni gyfarfod wyneb yn wyneb, gallwn ddechrau arni drwy gael sgwrs dros y ffôn, e-bost neu drwy gyfarfod ar y we – beth bynnag sy'n gyfleus i chi fel unigolyn neu grŵp.

**Pam mae angen i ni edrych ar Borthmadog, Tremadog a dalgylch afon Glaslyn?**
Wrth i'r hinsawdd newid, rhagwelir y bydd yr ardal yma, fel llawer o gymunedau arfordirol eraill ledled Cymru, yn wynebu stormydd a glawiad trwm yn amlach, yn ogystal â chynnydd yn lefel y môr.

Mae cynnal lefel bresennol yr amddiffyniad rhag llifogydd yn her, ac mae angen i ni ei hadolygu gyda'n gilydd, gan ystyried y dirwedd isel, bod yr amddiffynfeydd rhag llifogydd yn heneiddio ynghyd â nodweddion naturiol a hanesyddol pwysig yr ardal.

**Beth yw'r perygl o lifogydd?**
Rydym wrthi'n diweddaru'r model perygl llifogydd ar gyfer dalgylchoedd afon y Cyt a Glaslyn, gan sicrhau bod gennym y ddealltwriaeth ddiweddaraf o'r risg o lifogydd heddiw ac i'r dyfodol.
Fel rhan o'r gwaith o ddiweddaru'r modelau yma, rydym wedi ail-archwilio ac ail-arolygu amddiffynfeydd llifogydd yr ardal ac wedi cyfrifo anterth llifoedd yr afonydd.

Bydd canlyniadau'r astudiaeth hon - fydd ar gael tua diwedd y Gwanwyn 2021 - yn cael eu rhannu gyda phawb, gan esbonio beth mae hyn yn ei olygu i'r gymuned.

**Sut i gydweithio?**
Rydym yn awyddus i drafod y gwaith hwn gyda chi – sef y bobl sy'n adnabod Porthmadog, Tremadog a'r fro yn well na neb.

I ddechrau, cysylltwch efo ni i rannu'ch profiad o lifogydd a rhowch eich safbwyntiau a'ch syniadau cychwynnol am reoli'r perygl o lifogydd i'r dyfodol.

Anfonwch eich sylwadau a'ch ymholiadau at ein cyfeiriad e-bost:
Risgllifogydd.Porthmadog@cyfoethnaturiol.cymru

Neu gallwch drafod y prosiect dros y ffôn gydag ni drwy gysylltu â Sharon Parry, swyddog gweinyddol y prosiect sy'n siarad Cymraeg ar 03000 65 5264.

Gall Sharon drefnu ichi drafod y gwaith gyda naill ai Andrew Basford, Rheolwr y Prosiect (sy'n dysgu Cymraeg) neu John Meirion Davies, Uwch Ddefnyddiwr/Uwch Beiriannydd y Prosiect (siaradwr Cymraeg).

Os hoffech i Andrew neu John ymuno â'ch grŵp trwy gyfarfod ar-lein, gall Sharon drefnu hynny hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan
www.cyfoethnaturiol.cymru/risgllifogyddPorthmadog

**Beth fydd yn digwydd ar ôl imi gysylltu?**
Byddwn yn casglu eich ymatebion a'u defnyddio i helpu i benderfynu ar y camau nesaf.

Ymhen amser, pan fydd yn ddiogel gwneud hynny, byddwn yn cynnal sesiynau galw i mewn yn y dref er mwyn rhannu eich holl sylwadau ac adborth, ac i greu cyfleoedd pellach i drafod.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith yma ar gael ar ein gwefan:
www.cyfoethnaturiol.cymru/risgllifogyddPorthmadog

Yn gywir



**Siân Williams**
**Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd Orllewin / Head of Operations North West**